# 10.0 Marchnata a Chyfathrebu

## Gweithio Gyda'r Cyfryngau

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Cadw llygad ar y darlun mawr
3. Llunio polisi cyfryngau
4. Pryd mae'r mudiad yn siarad â'r cyfryngau?
5. Sut mae creu strategaeth cyfryngau
6. Datganiadau effeithiol i'r wasg
7. Gwybodaeth Bellach


## Cyflwyniad

Mae codi arian, cefnogaeth y cyhoedd ac enw da i gyd yn cael eu heffeithio gan sylw yn y cyfryngau. Beth allwch chi ei wneud i helpu mewn byd lle gall sylw yn y wasg lansio neu ddifetha eich mudiad?



Llun: Cynhadledd i'r wasg

Y cam cyntaf bob amser yw ystyried amcanion marchnata CAMPUS eich mudiad – dylai'r holl weithgarwch cyfathrebu gyfrannu at yr amcanion hyn.

Dylai negeseuon allweddol eich mudiad fod wedi'u datblygu wrth ddatblygu'r strategaeth farchnata a dylai'r holl gyfathrebiadau dilynol gyd-fynd â'r negeseuon allweddol hyn.

Fodd bynnag, mae'n bwysig teilwra pob neges i'ch gwahanol gynulleidfaoedd, gan gofio na fydd un set o negeseuon yn addas i bawb.

Mae hyn yn haws pan fyddwch yn rhagweithiol – yn cynllunio eich strategaeth cyfryngau ar gyfer mentrau i ddod.

Gall fod yn anoddach pan fyddwch yn adweithio – yn ymateb i argyfwng.

Mae'n hynod bwysig canolbwyntio ar gysylltiadau â'r cyfryngau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd â'ch cyfryngau cenedlaethol, lleol a hyperleol, a chofiwch feithrin cydberthnasau â nhw, gan ddysgu am eu gwahanol gynulleidfaoedd. Cymharwch eu cynulleidfaoedd â'ch cynulleidfaoedd chi a bydd hyn yn eich helpu i dargedu rhannau penodol yn strategol gyda negeseuon penodol, neu i ymateb i'r gwahanol gyfryngau yn y tôn llais cywir yn ystod argyfwng.

## Cadwch lygad ar y darlun mawr

Gwnewch yn siŵr bod systemau eisoes ar waith ar gyfer delio â'r cyfryngau. A oes rhywun yn gyfrifol am gysylltu â'r wasg? Beth yw ei friff? Sut mae'n cael ei hyfforddi i ddelio ag ymholiadau gan y cyfryngau?

### Cyfleu ethos a mentrau eich mudiad:

- Beth sy'n digwydd yn y gymuned ehangach neu ymhellach i ffwrdd? A oes unrhyw beth perthnasol yn digwydd y gall eich mudiad fanteisio i'r eithaf arno i helpu i ymhelaethu ar eich neges eich hun?
- Cadwch eich llygad ar y mudiadau gwirfoddol sy'n cael sylw yn y cyfryngau. Beth sy'n cael sylw a sut?
- Cadwch mewn cysylltiad â llunwyr barn yn y gymuned. Holwch sut mae'r mudiad yn edrych drwy eu llygaid nhw.
- Datblygwch syniad clir o sut yr hoffech i'ch mudiad edrych yn llygad y cyhoedd. Pa weithgareddau yr hoffech i'r cyhoedd eu cysylltu â chi'n benodol?

### Rheoli argyfwng:

- Cysylltwch â mudiadau eraill i weld sut maen nhw'n ymdrin â sylw gan y cyfryngau
- Pa gamgymeriadau mae mudiadau yn eu gwneud, a sut gellid osgoi'r rhain? Dewch â thoriadau newyddion gyda chi i gyfarfodydd, gwyliwch ddarllediadau wedi'u recordio a'u trafod

- Nodwch feysydd problemus posibl: mae newyddiadurwyr bob amser yn chwilio am sgandal: A ellid ystyried bod gweithgareddau eich mudiad yn rhagfarnllyd?
- Tynnwch sylw at fannau trafferthus hysbys a meysydd o bryder, a'u trafod
- Crëwch sefyllfaoedd gwaethaf: Beth yw'r ffordd fwyaf negyddol y gallai'r cyfryngau gyflwyno eich mudiad neu ei weithgareddau? Trafodwch y goblygiadau a'r tactegau osgoi posibl

**Llefarwyr:**

- Gwnewch hyfforddiant yn y cyfryngau yn rhan o sesiwn gynefino'r pwyllgor – aelodau'r pwyllgor yn aml fydd y llefarwyr gorau oherwydd eu gweledigaeth strategol gyffredinol o'r mudiad. Efallai y bydd angen hyfforddiant penodol arnynt ynghylch brand a strategaeth farchnata eich mudiad, er mwyn sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu pan gânt eu cyfweld
- Mae'n bwysig ceisio darparu llefarwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y cyfryngau Cymraeg, neu ni fyddant yn rhoi sylw i'ch stori. Mewn sefyllfaoedd argyfwng, bydd siarad yn iaith eich cynulleidfa yn ddull amlwg o gynnal y berthynas.

## Drafftio polisi cyfryngau

Yn eu rôl fel llunwyr polisi ar gyfer y mudiad, gall y pwyllgor helpu i egluro cysylltiadau â'r cyfryngau drwy weithio gyda staff a rheolwyr i greu polisi cyfryngau i'r mudiad. Dylai hwn fod yn ddatganiad o safbwynt y mudiad tuag at y cyfryngau yn hytrach na chynllun manwl sy'n mynd i'r afael â phob cynllun wrth gefn (dylid gadael cynllun o'r fath i swyddog y wasg neu aelod dynodedig o staff). Dylai polisi'r mudiad nodi'n fras sut yr ymdrinnir ag ymholiadau gan y cyfryngau, gan nodi pwy ddylai siarad â'r cyfryngau.

Dylai hefyd ddarparu systemau ar gyfer penderfynu ar safbwynt y mudiad ar unrhyw fater penodol, ac ar gyfer lledaenu'r wybodaeth hon ar draws y mudiad. Mae'n allweddol ei bod yn ymddangos bod y mudiad yn siarad ag un llais ar faterion a bod staff, ymddiriedolwyr, gwirfoddolwyr - pawb - yn gwybod sut i ymateb pan fydd y wasg yn cysylltu â nhw, hyd yn oed petai hynny dim ond i gyfeirio newyddiadurwyr at yr unigolyn cywir i ateb eu cwestiynau.

## Pryd mae'r mudiad yn siarad â'r cyfryngau?

Fel arfer y Prif Weithredwr, aelod dynodedig o staff neu uwch wirfoddolwr fydd y llefarydd ar ran y cyfryngau. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd gellir galw ar y Cadeirydd neu ryw aelod arall o'r pwyllgor i gynrychioli'r mudiad.

Ar adegau o argyfwng, fel ymadawiad annisgwyl y Prif Weithredwr neu pan fydd y mudiad yn wynebu materion negyddol, gall llefarydd ar ran y pwyllgor gyflwyno delwedd o sefydlogrwydd a pharhad. Dyma gyfle i sicrhau bod sylw'r cyfryngau yn canolbwyntio ar genhadaeth gyffredinol a nodau hirdymor y mudiad, yn hytrach nag ar y problemau presennol.

Bydd pwy sy'n siarad â'r cyfryngau yn dibynnu yn y pen draw ar yr amgylchiadau.

- Os yw eich mudiad yn mynd ati'n rhagweithiol i gael cyhoeddusrwydd ar gyfer menter gyfredol, byddwch wedi cynllunio i gyflwyno aelod mwyaf gwybodus y pwyllgor neu lefarydd arall ymlaen llaw
- Mewn amgylchiadau argyfwng, pan fyddwch mewn rôl fwy ymatebol, dylai eich polisi cyfryngau nodi'n glir y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn fewnol, cyn siarad â'r cyfryngau, ar yr un gorau o dan yr amgylchiadau i ymdrin â'r sefyllfa

## Sut mae creu strategaeth cyfryngau

Gyda'i weledigaeth unigryw o'r mudiad, gall y pwyllgor ddod â llais pwysig i drafodaethau am strategaeth cyfryngau rhagweithiol neu raglenni cysylltiadau cyhoeddus.

Mae strategaeth ragweithiol wedi'i chynllunio i wneud i'r cyfryngau weithio i'r mudiad drwy ei ddefnyddio i godi proffil y mudiad a chadw sylw'r cyhoedd ar y gwaith cadarnhaol y mae'n ei wneud.

Byddai strategaeth o'r fath fel arfer yn cael ei chynllunio gan reolwyr a'i rhoi ar waith gan staff, ond gall y pwyllgor helpu drwy gyfrannu ei ymwybyddiaeth eang o'r materion.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru Third Sector Support Wales

Dylai strategaeth o'r fath gynnwys:

- Datganiadau i'r wasg am gyflawniadau. Rhaid i'r rhain fod wedi'u hysgrifennu'n dda ac yn barod i'r wasg eu defnyddio. Chwiliwch am gyfleoedd i glymu gweithgareddau trefniadol at faterion yn y newyddion
  - Bydd darparu delweddau, fideos a gwybodaeth gefndirol ymlaen llaw yn arbed amser y newyddiadurwr a gall olygu y cewch fwy o lwyddiant yn cael sylw
- Gwahodd y cyfryngau i adrodd ar ddigwyddiadau a swyddogaethau arbennig
- Ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus integredig ar gyfer digwyddiadau arbennig, cerrig milltir y mudiad - fel agor adeilad newydd neu gyrraedd marc aelodaeth uchel - a digwyddiadau codi arian
- Areithiau gan aelodau allweddol o staff neu aelodau'r pwyllgor, pan fo angen
- Cynllunio dulliau cyfathrebu mewn argyfwng – strategaeth glir sy'n tanlinellu sut bydd eich mudiad yn ymateb i sylw diangen yn y cyfryngau (gan gynnwys pwy fydd yn delio ag ymholiadau), gyda bwriad clir i geisio cyfeirio'r cyfryngau oddi wrth yr argyfwng a thuag at nodau hirdymor eich mudiad, gan gynnwys eich cyflawniadau hyd yma

## Datganiadau effeithiol i'r wasg

### Rhai Rheolau Sylfaenol

Mae datganiadau i'r wasg da yn syml – dylid osgoi cymhlethdod.

Gall gwaith da fod yn ddiflas – nid oes gennych hawl absoliwt i gael sylw yn y cyfryngau.

Os na allwch ddweud eich prif bwyntiau ar un dudalen o A4 yna nid ydynt yn werth eu dweud!



Llun: Datganiad i'r wasg mewn papur newydd

## Fformat ac Arddull Gyffredinol

Defnyddiwch eich papur â phennawd, nodwch 'Datganiad i'r Cyfryngau' yn glir ar y brig. Ar y llinell nesaf rhowch y dyddiad a'r geiriau 'i'w ddefnyddio ar unwaith' os ydych am iddo gael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl. Os ydych am iddo gael ei gyhoeddi ar ddyddiad penodol yn y dyfodol, rhowch 'embargo tan (dyddiad)'.

**Nodyn Pwysig**
Cytundeb rhwng cyfeillion yn unig yw'r embargo – nid oes ganddo statws cyfreithiol.

- Cadwch eich prif bwyntiau i un ochr – mae unrhyw beth arall yn wybodaeth ychwanegol a gellir ei chynnwys fel 'nodiadau i olygyddion'
- Gosodwch eich testun o leiaf un fodfedd i'r dde (mae newyddiadurwyr yn hoffi gwneud nodiadau ar ddatganiadau i'r wasg)
- Dylid cynnwys manylion cyswllt ar bob dalen o bapur ychwanegol gan y gall taflenni gael eu gwahanu

Rhaid i'r arddull drwyddi draw fod yn gryno, yn fachog ac mor ddiddorol â phosibl. Dychmygwch nad ydych yn gwybod unrhyw beth am eich mudiad: a yw'r stori hon yn sefyll allan; a yw o ddiddordeb mawr i ddarllenwyr/gwylwyr? Yn fyr, a yw'n ennyn diddordeb golygydd sy'n cael tomen o ddatganiadau i'r wasg bob dydd?

## Strwythur

### Pennawd

Teitl bachog, byr yn cyfleu ymdeimlad o'r stori mewn ychydig eiriau. Gadewch i'r newyddiadurwr ysgrifennu'r pennawd go iawn ar gyfer y papur newydd a dylech osgoi bod yn 'glyfar'.

- Pennawd
- Dyddiad
- I'w ddefnyddio ar unwaith / manylion embargo

## Paragraff un

Mae'n gwbl hanfodol ei fod yn fyr, yn benodol ac yn stori sy'n haeddu bod yn y newyddion. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi ymdrin â'r canlynol: Pwy, Beth, Ble, Pryd a Pham (mewn unrhyw drefn). Dyma'r paragraff pwysicaf a rhaid iddo allu sefyll ar ei ben ei hun. Cadwch bob brawddeg yn fyr – dim mwy na 25 gair.

## Paragraff dau

Rhowch y darn nesaf o wybodaeth: naill ai mwy o fanylion am yr uchod, neu wybodaeth newydd.

## Paragraff tri/pedwar

Dim ond os oes angen, e.e. mae gennych fwy o wybodaeth newydd. Mae'r paragraff hwn yn aml yn ddyfyniad gan rywun dan sylw (sy'n fodlon siarad â'r wasg os gofynnir iddo). Rhaid i'r dyfyniad ychwanegu dimensiwn newydd, fel ochr bersonol stori.

Fel arall, gallai fod yn ddyfyniad gan eich llefarydd yn esbonio pwysigrwydd y stori mewn iaith gref, awdurdodol. Mae hefyd yn aml yn gyfle i gyfleu eich negeseuon allweddol yn y tôn llais cywir.

## Manylion cyswllt

Dylid cynnwys enw, teitl a rhif cyswllt mewn print clir, trwm ar waelod y ddogfen.

## Nodiadau i olygyddion

Dyma lle gallwch esbonio'r cefndir. Disgrifiwch yr hyn y mae eich elusen yn ei wneud mewn cwpl o frawddegau gan roi ystadegau sylfaenol y mater neu eich mudiad.

Os ydych yn anfon eich datganiad drwy e-bost peidiwch â rhoi'r geiriau 'datganiad i'r wasg' yn y blwch pwnc neu fel teitl. Dychmygwch weld mewnflwch eich negeseuon e-bost yn llawn negeseuon o'r enw 'datganiad i'r wasg'! Mae'n rhaid i'r frawddeg gyntaf ddweud pwy sy'n gwneud beth a phryd – mae newyddiadurwyr yn gwneud penderfyniad ar yr hyn y gallant ei weld yn eu blwch derbyn, h.y. y frawddeg gyntaf un yn unig.

### Dewch â'r stori'n fyw – gwnewch y gwaith caib a rhaw

Mae newyddiadurwyr yn bobl brysur y mae eu mewnflychau yn aml yn cael eu pledu â negeseuon. Gan ragdybio eich bod wedi dal eu sylw, ystyriwch beth arall fydd ei angen arnynt i allu cyhoeddi eich stori. Peidiwch â rhoi gwaith ychwanegol iddynt, gwnewch y gwaith cefndir ar eu cyfer – darparwch luniau neu ffilm berthnasol, wedi'u labelu'n gywir.

Os ydych chi'n gwybod bod y cyfryngau dan sylw yn darparu ffeithiau caled, wedi'u cefnogi gan ystadegau cynhwysfawr i'w darllenwyr, rhowch y data perthnasol i'w darllenwyr. Efallai eu bod yn aml yn cyhoeddi straeon o ddiddordeb i bobl, ac os felly, yn darparu cyfweliadau a/neu luniau o bobl. Mewn geiriau eraill, dylech adnabod eich cyfryngau a'u darllenwyr a rhoi'r hyn y maent eisiau ei gael.

## Iaith

### Ysgrifennu mewn Cymraeg clir

Jargon; mae brawddegau hir a geiriau cymhleth yn tanseilio'r neges:

- Penderfynwch beth rydych am ei ddweud – ysgrifennwch bwyntiau bwled cyn i chi geisio ysgrifennu datganiad i'r wasg a chael eich gwybodaeth gefndirol wrth law
- Ysgrifennwch fel petaech chi'n siarad â rhywun wrth eich ymyl. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio geiriau neu frawddegau hir pan fyddan nhw'n siarad - felly pam eu defnyddio pan fyddwch chi'n ysgrifennu at y wasg?
- Defnyddiwch ymadroddion y mae pobl yn eu defnyddio bob dydd ond dylech osgoi ystrydebau. Os nad yw'n swnio'n iawn pan fyddwch yn ei ddweud yn uchel, newidiwch ef
- Cadwch frawddegau'n fyr ac yn syml. Peidiwch â defnyddio ansoddeiriau
- Byddwch yn gadarnhaol. 'roedd yn broblem fach', nid 'nid ydyn ni'n meddwl bod hon yn broblem fawr'
- Byddwch yn benodol. Adnoddau/cyfleusterau? Angen arian ar gyfer adeilad newydd? Dywedwch hynny
- Gofynnwch i rywun wirio eich deunydd – mae'n anodd prawfddarllen eich gwaith eich hun

## Rhai geiriau diangen

Dyma ychydig o enghreifftiau o eiriau syml y dylid eu defnyddio mewn datganiadau i'r wasg yn hytrach na'r dewisiadau amgen.

| | |
|---|---|
| **Yn unol â hynny** | felly |
| **Canfod** | dod o hyd |
| **Bwrw iddi** | dechrau |
| **Cydsynio** | cytuno |
| **Terfynu / Diweddu** | gorffen/stopio |
| **Nifer** | llawer |
| **Gwallus** | anghywir |
| **Hwyluso** | helpu |
| **Cychwyn** | dechrau |
| **y ffaith amdani yw** | oherwydd |
| **Heb wybod** | ddim yn gwybod |
| **Gweneud defnydd o** | defnyddio |
| **Unigolion** | pobl |
| **Cael gafael ar/derbyn** | cael |
| **Ymdrechu/rhoi cynnig** | ceisio |
| **Yn hytrach** | yn lle |
| **Os bydd** | os |
| **Yn agos** | ger |

## Safonau'r Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu na ddylid ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er nad oes yn rhaid cyfieithu pob gweithgaredd yn ei union gyd-destun, dylid anelu at gydbwysedd cyfartal o ran sicrhau bod cynulleidfaoedd Cymraeg a Saesneg eu hiaith yn agored i weithgarwch.

## Gwybodaeth Bellach

**Hwb Adnoddau (Saesneg yn unig)**
**Media Trust**
https://mediatrust.org/communications-support/resource-hub/

**Dechrau gyda'r Cyfryngau (Saesneg yn unig)**
**NCVO**
https://knowhow.ncvo.org.uk/campaigns/communications/how-the-media-works

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â
https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.